# Bronciolitis mewn plant

Mehefin 2015

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r cyngor ar bronciolitis a nodir yng nghanllaw clinigol NICE NG9.

### *A yw'r wybodaeth hon yn berthnasol i mi?*

Ydy, os yw eich plentyn hyd at 2 flwydd oed ac rydych wedi cael gwybod bod ganddo fronciolitis.

Nid yw'n berthnasol i fabanod a phlant sydd:

- â salwch anadlu arall (er enghraifft asthma neu wichian feirysol)
- eisoes yn yr ysbyty mewn unedau gofal newydd-anedig neu ofal dwys i blant.

## Bronciolitis

Mae Bronciolitis yn salwch y gall babanod a phlant hyd at 2 flwydd oed ei gael, a bydd un o bob tri phlentyn wedi'i gael cyn eu pen-blwydd cyntaf. Maent yn fwyaf tebygol o'i gael pan fyddant rhwng 3 a 6 mis oed, a byddant fel arfer yn ei ddal yn ystod misoedd y gaeaf (rhwng Hydref a Mawrth). Mae fel arfer yn dechrau fel trwyn sy'n rhedeg neu drwyn wedi'i flocio, ond dros 2 i 3 diwrnod, bydd y llwybrau anadlu bach (bronciolau) yn yr ysgyfaint yn cael eu heintio, yn chwyddo ac yn llenwi â mwcws. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i'r plant anadlu a bwyta.

Yn y rhan fwyaf o blant, bydd y bronciolitis yn ysgafn a bydd eu hanadlu a'u bwyta yn gwella o fewn 5 diwrnod, er y gall eu peswch gymryd mwy o amser i wella (fel arfer tua 3 wythnos, ond yn hirach weithiau). Nid oes unrhyw feddyginiaethau a all wella bronciolitis, ond gall y meddyginiaethau arferol a

ddefnyddir ar gyfer annwyd (megis paracetamol neu ibuprofen) helpu i wella'r symptomau.

Fel arfer, gellir gofalu am blant sydd â bronciolitis gartref, er y bydd yn rhaid i rai ohonynt (tua 3 o bob 100) fynd i'r ysbyty i gael help i anadlu a bwyta. Gall bronciolitis fod yn ddifrifol, ac mae rhai plant yn wynebu risg o'i ddioddef yn waeth (gweler a oes pethau a all effeithio ar salwch fy mhlentyn?) ond anaml iawn y bydd yn achosi marwolaeth.

## Tîm gofal iechyd eich plentyn

Gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn meysydd triniaeth neu gymorth gwahanol fod yn rhan o ofal eich plentyn. Gallai'r rhain gynnwys meddygon teulu, arbenigwyr pediatrig (meddygon sy'n arbenigo mewn gofalu am blant), nyrsys a chynorthwywyr gofal iechyd.

### *Gweithio gyda chi*

Dylai tîm gofal eich plentyn drafod bronciolitis â chi. Dylai egluro unrhyw brofion neu driniaethau y dylid eu cynnig i'ch plentyn ac unrhyw gymorth sydd ar gael i chi a'ch plentyn er mwyn i chi allu penderfynu ar y cyd beth sydd orau i'ch plentyn. Mae rhestr o gwestiynau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i siarad â thîm gofal eich plentyn.

Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Efallai na fydd rhai o'r triniaethau neu'r gofal a ddisgrifir yma yn addas i'ch plentyn, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau. Os credwch nad yw triniaeth eich plentyn yn cyd-fynd â'r cyngor hwn, neu os oes unrhyw bryderon gennych, siaradwch â'ch tîm gofal.**

## A oes gan fy mhlentyn froncioliitis?

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ofyn i chi:

- a oes gan eich plentyn beswch nad yw'n gwella?

- a yw eich plentyn wedi cael annwyd yn ddiweddar sydd wedi para rai dyddiau?
- a oes gan eich plentyn dymheredd uchel neu dwymyn?
- a yw eich plentyn yn cael trafferth i fwydo?
- ydych chi wedi sylwi bod eich plentyn yn peidio ag anadlu am fwy na 10 eiliad? (Gelwir hyn yn apnoea, ac mae'n arbennig o bwysig ar gyfer babanod bach neu rai sydd wedi'u geni'n gynnar, oherwydd hyn efallai fyddai'r unig arwydd fod ganddynt fronciolitis.)

Bydd eich gweithiwr iechyd proffesiynol yn edrych am arwyddion bronciolitis yn eich plentyn drwy wrando ar ei frest a chymryd ei dymheredd. Efallai y bydd hefyd yn gweld pa mor dda mae ysgyfaint eich plentyn yn gweithio gan ddefnyddio prawf o'r enw ocsimetri pwls, sy'n mesur faint o ocsigen sydd yn y gwaed. Mae'r prawf yn gweithio drwy osod mesurydd ar groen eich plentyn (bys neu fys troed) sy'n taflu golau drwy'r croen. Mae faint o olau a gaiff ei amsugno yn gysylltiedig â faint o ocsigen sydd yn ei waed.

### A oes unrhyw beth a all effeithio ar ba mor wael yw salwch fy mhlentyn?

Efallai y bydd angen i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol wirio manylion eraill am eich plentyn a'ch bywyd cartref hefyd. Mae hyn oherwydd y gall rhai pethau olygu bod bronciolitis eich plentyn yn fwy difrifol, fel y canlynol:

- os cafodd ei eni'n gynnar
- os yw'n fach iawn (llai na 3 mis oed)
- os oes ganddo glefydau a chyflyrau eraill a all effeithio ar y salwch (fel ffibrosis systig, clefyd y galon neu broblemau cyhyrol)
- os nad yw wedi'i fwydo ar y fron
- os yw'n byw mewn cartref lle mae rhywun yn ysmygu.

## A fydd rhaid i'm plentyn fynd i'r ysbyty?

Gellir gofalu am y rhan fwyaf o blant sydd â bronciolitis gartref, ond bydd yn rhaid i rai ohonynt fynd i'r ysbyty am ragor o brofion i weld a oes angen iddynt gael gofal yno. Bydd eich gweithiwr iechyd proffesiynol yn trafod y dewis

gorau ar gyfer eich plentyn, yn ei farn ef, gyda chi, yn seiliedig ar yr hyn y mae wedi'i ganfod wrth edrych ar eich plentyn a'r hyn rydych wedi'i ddweud wrtho am waeledd salwch eich plentyn a'ch bywyd gartref.

Weithiau, yr ysbyty fydd y dewis gorau hefyd os:

- ydych chi'n byw yn bell i ffwrdd oddi wrth feddyg neu ganolfan iechyd
- ydych chi'n bryderus na allwch fod yn siŵr a yw eich plentyn yn gwaethygu.

Os yw eich plentyn yn sâl iawn, efallai y bydd angen iddo fynd i'r ysbyty yn syth mewn ambiwlans.

Cyn penderfynu a all eich plentyn fynd adref neu aros yn yr ysbyty, dylai'r tîm gofal iechyd wirio'r canlynol:

- faint o ocsigen sydd yn y gwaed gan ddefnyddio ocsimetri pwls (gweler a oes gan fy mhlentyn fronciolitis?)
- p'un a yw'n bwyta'n dda ac wedi'i hydradu'n dda (os oes ganddo ddigon o ddŵr yn ei gorff).

## Gofalu am eich plentyn gartref

Os ydych am ofalu am eich plentyn gartref, dylech gael gwybodaeth am sut i wybod ei fod yn gwaethygu (arwyddion 'baner goch') a sut i gael help yn gyflym os oes angen. Hefyd, dylai'r wybodaeth ddweud wrthych am unrhyw ofal dilynol sydd ar gael i chi.

### *Arwyddion 'baner goch'*

Pan fyddwch yn gofalu am eich plentyn gartref, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r arwyddion pwysig hyn a gwybod os byddant yn gwaethygu, er mwyn i chi gael help cyn gynted â phosibl:

- yn cael mwy o drafferth i anadlu - gall hyn olygu ei fod yn gwneud sŵn wrth anadlu allan, chwythu drwy ei ffroenau, bod ei frest cael ei dynnu mewn rhwng ei asennau, neu ei fod yn defnyddio ei stumog i anadlu

- ddim yn bwyta digon (rhwng hanner a thri chwarter y swm arferol, dim cewyn gwlyb am 12 awr) - gallai'r rhain fod yn arwyddion fod y plentyn wedi dadhydradu
- yn peidio ag anadlu am fwy na 10 eiliad (apnoea)
- y croen y tu mewn i'r gwefusau neu o dan y tafod yn troi'n las (syanosis)
- blinder (ddim yn ymateb fel y byddai arfer, cysglyd, dig, di-egni, anodd ei ddeffro).

## Beth fydd yn digwydd os bydd angen i'm plentyn aros yn yr ysbyty?

Yn yr ysbyty efallai caiff eich plentyn rai neu bob un o'r triniaethau canlynol er mwyn ei helpu i wella:

- tiwb sugno yn ei drwyn, ceg neu wddf am ychydig eiliadau er mwyn sugno unrhyw rwystrau allan a'i helpu i fwyta ac anadlu'n haws
- ocsigen ychwanegol gan ddefnyddio masg wyneb, tiwb neu flwch pen (blwch plastig bychan yw hwn a gaiff ei osod dros y pen os yw'r plentyn yn rhy fach i wisgo masg neu diwb) os nad yw'n gallu cael digon ohono o'r aer
- masg wyneb neu diwb arbennig er mwyn gwthio ocsigen i'w ysgyfaint gan ddefnyddio pwysedd aer
- gosod tiwb bwydo yn ei stumog, naill ai drwy ei drwyn neu'i geg i roi bwyd llaeth a/neu feddyginiaethau.

Efallai y bydd angen drip ar eich plentyn hefyd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cael digon o hylif.

Hefyd, efallai y bydd angen i rai plant gael prawf o'r enw prawf nwy gwaed capilari. Caiff hyn ei wneud drwy bigiad bach yn y croen i gymryd y gwaed (yn debyg i brawf pigiad sawdl) i weld faint o'r ocsigen y mae'r plentyn yn ei anadlu i mewn sy'n cyrraedd ei waed.

### ***Pryd bydd fy mhlentyn yn gallu dod adref o'r ysbyty?***

Bydd angen i'ch plentyn aros yn yr ysbyty nes bod y tîm gofal iechyd yn siŵr na fydd yn gwaethygu eto, ei fod yn gallu bwyta digon fel na fydd wedi ei ddadhydradu a'i fod yn anadlu'n ddigon da ar ei ben ei hun.

Efallai y byddant hefyd am wneud yn siŵr:

- nad ydych yn pryderu ynglŷn â mynd â'ch plentyn adref rhag ofn iddo waethygu
- eich bod yn ddigon agos at feddyg neu ganolfan gofal iechyd i gael cymorth yn gyflym
- eich bod yn gwybod pa arwyddion i gadw llygad amdanynt sy'n dangos bod y cyflwr yn gwaethygu (arwyddion 'baner goch').

## Cwestiynau i'w gofyn am bronciolitis

### ***Darganfod beth sy'n bod (diagnosis)***

- A allwch ddweud mwy wrthyf am y profion/ymchwiliadau y bydd eu hangen efallai ar fy mhlentyn?
- Beth mae'r profion hyn yn ei olygu?
- Ble y cânt eu cynnal? A fydd angen i'm plentyn eu cael yn yr ysbyty?
- Pam bod angen i chwi wybod am fanylion eraill ac am fywyd cartref fy mhlentyn?
- Os nad oes gan fy mhlentyn fronciolitis, beth arall allai fod?

### *Triniaethau a gofal*

- A allwch chi ddweud wrthyf pam rydych wedi penderfynu cynnig y math penodol hwn o driniaeth i fy mhlentyn?
- Beth fydd yn ei gynnwys?
- Sut y bydd yn helpu fy mhlentyn? Pa effaith a gaiff ar symptomau fy mhlentyn?
- A fydd angen i fy mhlentyn aros yn yr ysbyty ac os felly, pam?
- Pryd y bydd fy mhlentyn yn barod i ddod adref?

- Os yw fy mhlentyn yn dal i besychu ar ôl ychydig wythnosau, beth dylwn i ei wneud?
- A fydd meddyginiaethau peswch ac annwyd dros y cownter yn helpu fy mhlentyn i deimlo'n well?
- Pam ei bod hi mor bwysig sicrhau nas oes unrhyw un yn ysmygu o amgylch fy mhlentyn pan fydd yn dychwelyd adref?
- A allwch roi unrhyw wybodaeth i mi er mwyn fy helpu i ofalu am fy mhlentyn?

### *Gwybodaeth am fronciolitis*

- A allwch ddweud mwy wrthyf am fronciolitis?
- Allwch chi atal bronciolitis? A oes brechiad ar gael?
- A oes modd i fy mhlentyn gael bronciolitis eto ar ôl ei gael unwaith?
- A fydd yn effeithio ar fy mhlentyn yn y dyfodol?
- A fydd cael bronciolitis yn golygu bod fy mhlentyn yn fwy tebygol o gael problemau anadlu eraill, fel asthma, yn y dyfodol?
- A all fy mhlentyn gael brechiadau arferol?
- A oes angen i fy mhlentyn gadw draw oddi wrth blant eraill?

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant (NCT), 0300 330 0700
  www.nct.org.uk
- Bliss, 0500 618140
  www.bliss.org.uk
- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
  www.blf.org.uk

Gallwch hefyd gysylltu ag NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1342-8